

CYNLLUN AR GYFER CYFARFOD BWRDD CYMDOGAETHAU

13eg o DACHWEDD 2025 @ 9.30PM

COFNODION

Presennol:

Presennol	Ymddiheuriadau
Aelodau'r Bwrdd	
Paul Gray (PG) – Cadeirydd	Y Cyngorydd Brent Carter (BC)
AS Gerald Jones (GJ)	MS Dawn Bowden (DB)
Lis Mclean (LM)	Geraint Williams (GW)
Sharon Richards (SR)	Daniel Jones (DJ)
Y Cyngorydd David Jones (DJ)	
Karen Courts (KC)	
Elizabeth Bedford (EB)	
Simon Evans (SE)	
Robert Davies (RD)	
Cynghorwyr Bwrdd	
Ellis Cooper (ES)	Steven Jones (SJ)
Craig Flynn (CF)	Ceri Dinham (CD)
Zoe Thomas (ZT)	
Judieth Jones (JJ)	
Laura Willcox (LW)	
Paul Lewis (PL)	
Victoria Parry (VP)	
Rob Miles (RM) *Yn lle Steven Jones	
Cyflwynydd Gwadd	
Keith Thomas (KT) / James Brown (JB) a Florence Bell (FB) – y trefolwyr	

Eitemau a drafodwyd

Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Agorodd PG y cyfarfod, gan groesawu a diolch i'r holl aelodau am eu presenoldeb

Cafwyd diweddariad gan LW ynghylch ymddiheuriadau'r absenolwyr

Gweithredoedd y cyfarfod blaenorol:

Bydd y camau gweithredu gan fwrdd mis Hydref yn cael eu trafod yn ystod Bwrdd Rhagfyr

Pwrrpas Cyfarfod Interim y Bwrdd:

Gosododd LW gyd-destun y cyfarfod, gan bwysleisio mai'r prif amcan oedd sicrhau cytundeb mewn egwyddor ar gyfer y Cynllun Adfywio a Buddsoddi 4 Blynedd gan y Bwrdd, o ystyried bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r cais ar fin digwydd ar Dachwedd yr 28^{ain}

Pwysleisiwyd nad yw'r gymeradwyaeth hon yn ymrwymiad i gynllun statig, anhyblyg. Mae'r Cynllun ar gyfer Cymunedau yn rhaglen hyblyg, 10 mlynedd wedi'i chynllunio ar gyfer llywio hirdymor, gydag ymgynghoriad cymunedol parhaus yn gweithio fel mecanwaith i flaenoriaethau'r ffordd byddwn yn llywio gwariant a phrosiectau'r dyfodol.

Ailadroddodd LW i'r Bwrdd fod y rhaglen yn drwm o ran cyfalaf ac er bod yr angen am refferiwr cyfatebol yn uchel, rhaid i'r Bwrdd weithio o fewn y paramedrau ariannol presennol ar gyfer y cyflwyniad cychwynnol hwn.

Mae'r ymyriadau a gynigir yn seiliedig ar ymgynghoriadau lleol diweddar, ac mae'r cynllun wedi'i gynllunio i fod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei mireinio yn ystod y misoedd nesaf. Y cam hanfodol yw cyflawni consensws heddiw.

Tynnodd KT sylw at y ffaith bod y rhaglen genedlaethol yn gweithredu o dan 8 thema, 30 is-thema, a 148 o ymyriadau. Nodwyd, er nad yw pob un ohonynt yn berthnasol yn lleol, mae'r Bwrdd yn cadw'r hyblygrwydd i fanteisio ar unrhyw un ohonynt wrth i'r rhaglen fynd rhagddo.

Ar gyfer Merthyr, cadarnhawyd y tri maes ffocws strategol cychwynnol fel:

- Diogelwch; Adnewyddu
- Stryd Fawr a Threftadaeth
- Gwaith, cynhyrchiant a sgiliau.

Holodd LM am ystyriaeth o'r Gymraeg yn y cynllun. Cadarnhaodd KT, er bod y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau yn rhaglen ledled y Deyrnas Unedig nad sy'n sôn yn benodol am yr Iaith Gymraeg, ystyrir ei bod yn hanfodol cynnwys polisiau a rhaglenni lleol i sicrhau cydymffurfiaeth ac aliniad ar lefel cyflawni.

Cyflwynodd KT y strwythur ariannol lefel uchel, sy'n cwmpasu Cyllid Capasiti, Refeniw a Dyraniadau Cyfalaf, gyda ffocws manwl ar Gyllid Capasiti Blwyddyn 1.

Soniodd KT fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhaglen wario o leiaf 25% o'r dyraniad cronus erbyn diwedd Cyfnod Buddsoddi 1, 50% erbyn diwedd Cyfnod 2, a 100% erbyn diwedd Cyfnod 3.

Nododd KT y bydd gwerthusiadau rhaglenni yn cael eu cynnal yn ganolog gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn dilyn dull cenedlaethol o weithredu.

Pwysleisiodd PL y dylid blaenoriaethu'n rhagweithiol y rhaglenni llwyddiannus cyfredol sy'n rhan o'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau ac sydd i fod i ddod i ben yn fuan, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau ymgynghori.

Cadarnhaodd KT fod ffioedd dylunio a phroffesiynol yn gymwys o dan yr elfen Cyfalaf, os yw'r gwaith yn ymwneud yn uniongyrchol â phrosiect cyfalaf.

Gofynnodd RD a fyddai Gorchmynion Prynu Gorfodol (GPG) yn cael eu caniatáu i ddod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd at ddibenion digartrefedd. Atebodd KT fod Gorchmynion Prynu Gorfodol yn gymwys o dan gyllid cyfalaf y Rhaglen.

Ailadroddodd GJ hyblygrwydd y cynllun. Amlinellodd LW fod Natalie Nolan, cynrychiolydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn cytuno bod y rhaglen yn hyblyg ac mae'r egwyddor yn cytuno.

Cododd LM yr angen i'r Trydydd Sector (e.e. banciau bwyd, cyngor ar bopeth) allu cyflawni ar ran y Bwrdd. Cadarnhaodd KT fod gweithio gyda'r Trydydd Sector yn cael ei gynnwys o fewn elfen Refeniw'r cyllid.

Awgrymodd ZT y gallai cyfarfodydd y dyfodol drafod alinio'r cynllun â'r Strategaeth Eiddo Gwag a rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru

Roedd RM yn teimlo na fyddai'r ganran a roddwyd i Ddiogelwch yn ddigon i dalu am deledu cylch cyfyng o ystyried costau offer.

Tynnodd ZT sylw at y budd o gyfuno themâu, gan roi enghraifft o adfywio canol trefi (e.e., gwelliannau adeiladu) y gellir ei gyfuno ag ymyriadau Diogelwch (e.e. Atal Troseddau Trwy Ddylunio Amgylcheddol, gweithio gyda'r Heddlu i waredu ar drosedd).

Cynigion Cynllun a Phleidlais Aelodau:

Cyllid Capasiti: Cyflwynodd KT y cynnig ar gyfer dwy swydd (Rheolwr Rhaglen a Swyddog Prosiect i gefnogi'r Rheolwr Rhaglen) ar gyfer Cyfnod 1. Trafodwyd y potensial i fanteisio ar rôl y Swyddog Prosiect

ond ystyriwyd ei fod yn anodd; bydd y rôl yn cael ei ariannu i ddechrau trwy Gyllid Capasiti ac yn cael ei hadolygu dros y ddwy flynedd nesaf. Dim materion wedi'u codi gan y bwrdd.

Roedd PG yn teimlo bod y rolau yn fwy gwerthfawr na phenodi ymgynghorwyr allanol yn y dyfodol.

Cyllid Refeniw: Cyflwynodd KT yr elfen Refeniw arfaethedig.

Cododd LM bryderon am y pwysoli, gan ddymuno dyraniad uwch ar gyfer Addysg a Chyfle a Thrafnidiaeth oherwydd pryderon tlodi plant.

Ymatebodd KT fod Trafnidiaeth yn eitem gyfalaf yn bennaf, sy'n cael ei thrafod ar hyn o bryd trwy ffrydiau cyllido allanol (Teithio Llesol, Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, cyfleoedd CCR). Cytunwyd i ddefnyddio grwpiau tasgau a gorffen i archwilio'r cyfleoedd ehangach i gysylltu tlodi ac addysg yn ogystal â chyfleoedd eraill fel rhan o'r rhaglen Cynllun ar gyfer Cymdogaethau yn gyffredinol.

Roedd DJ yn cefnogi'r pwysau uchel a roddwyd i Ddiogelwch fel gofyniad sylfaenol ar gyfer pob ymdrech adfywio arall, yn enwedig yng nghanol y dref.

Cyfrannau Refeniw: Cytunwyd i ychwanegu dyraniadau cyfrannol ar gyfer Addysg/Cyfle i flynyddoedd diweddarach o fewn Cyfnod 1, a thrwy gydol Cyfnodau dau a thri, er mwyn caniatáu amser i weithio'r strategaethau cyfatebol.

Cyllid Cyfalaf: Cadarnhaodd y Bwrdd eu bod yn fodlon â'r dyraniad Cyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod buddsoddi cyntaf.

Bydd KT yn llenwi'r ffigurau terfynol ac yn gweithio ar lunio'r darn addysgol ac aliniad y prosiect ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Eitemau y Gwnaed Penderfyniad yn eu Cylch

Cynhaliwyd pleidlais ynghylch a oedd aelodau'r Bwrdd yn cytuno ag ethos a strwythur "mewn egwyddor" y cynlluniau. Cytunodd holl aelodau'r Bwrdd yn unfrydol.

Cytunodd y Bwrdd y dylid anfon y cynlluniau drafft at Arweinydd Cyflawni Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'w hadolygu a rhoi eu sicrhad cyn y cyflwyniad terfynol ar yr 28^{ain} o Dachwedd.

Materion Eraill a Drafodwyd

Amlinellodd LW y byddai camau gweithredu cyfarfod mis Hydref yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd Rhagfyr / Ionawr.

Soniodd LM fod dau adeilad adfeiliedig amlwg wedi'u trafod yn ddiweddar mewn cyfarfod Treftadaeth ar gyfer eu cynnwys, o bosib, yn y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau. Cadarnhaodd ZT fod yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r adeiladau hyn.

Bydd eitem agenda sy'n cwmpasu blaenoriaethau'r Awdurdod Lleol a rhaglenni allanol yn cael ei hychwanegu at gyfarfod y Flwyddyn Newydd i sicrhau aliniad y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau.

Diolchodd LM i'r tîm am eu diwydrwydd a'r modd y gwnaethant ymgymryd â'r gwaith o baratoi'r cynlluniau.

Soniodd PG am y cyfarfod diweddar gydag Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a chadarnhaodd y byddant yn cael eu gwahodd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr i drafod y posibilrwydd o gydweithredu

Awgrymodd SR y dylem gysylltu â Sefydliad Banc Lloyds fel sefydliad y gallem o bosib gydweithio â hwy, o ystyried eu gwaith lleol gyda'r Rhaglen Bobl a Chymunedau

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn bersonol ar Dachwedd yr 21^{ain} yng Nghanolfan Fusnes Orbit, bydd yn canolbwyntio ar y gwaith allweddol ar lofnodi'r cynlluniau terfynol

